CYFARWYDDYD, DOCUMENT

# Cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd - pecynnau adnoddau

Pecynnau adnoddau

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Ebrill 2024

**Diweddarwyd diwethaf:** 17 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Ar y dudalen hon

**Sut i roi cyfleoedd i'ch gweithwyr o ran mynediad, twf a chynnydd**

**Beth allaf ei wneud fel cyflogwr i sicrhau cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd ar gyfer fy staff?**

**Pecyn cymorth - Cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Sut i roi cyfleoedd i'ch gweithwyr o ran mynediad, twf a chynnydd



I unigolion, mae manteision mynediad at waith o ansawdd da a chyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol yn glir. Gall cael cyfleoedd nid yn unig i weithio, ond i ddatblygu a thyfu yn eu rôl wella eu cyfleoedd mewn bywyd yn sylweddol, gan bennu eu potensial o ran cyflogaeth ac enillion a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer symudedd cymdeithasol.

Ond beth am y manteision i chi fel cyflogwr?

Dyma rai o’r ffyrdd y gall rhoi’r cyfleoedd sydd eu hangen ar eich gweithwyr o ran mynediad, twf a chynnydd fod o fudd i berfformiad eich busnes:

- Drwy weithredu dull cynhwysol o ran recriwtio a datblygu gweithlu, megis cynhwyso’r model cymdeithasol o anabledd a chael gwared ar rwystrau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

gyfranogiad a dilyniant, gall cyflogwyr ddatblygu sefydliadau amrywiol lle mae talentau o bob rhan o'r farchnad lafur, yn cynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu a'u defnyddio

- Mae gweithwyr y buddsoddir yn eu sgiliau a'u dysgu yn fwy tebygol o fod yn deyrngar ac yn ymroddedig i'w swyddi.
- Mae sgiliau gweithlu o lefel uchel yn hanfodol i gynhyrchiant busnes a ffyniant economaidd a byddant yn galluogi eich sefydliad i ateb gofynion busnes nawr ac yn y dyfodol.
- Mae cefnogi dysgu mewn llif gwaith yn uchel ar agenda llunwyr polisi a chyflogwyr ar draws y byd. Mae'n helpu i gymell eich gweithwyr ac yn cynyddu lefelau boddhad a lefelau cadw staff.
- Bydd cael gweithdrefnau hyrwyddo tryloyw ar waith yn cymell staff i symud ymlaen o fewn y sefydliad ac aros gyda'r cwmni am gyfnod hirach.
- Mae manteision cymdeithasol ehangach hefyd. Mae darparu cyfleoedd teg yn cael gwared ag anghydraddoldeb yn farchnad ac anghydraddoldebau cysylltiedig, yn lleihau costau dyrannu adnoddau aneffeithlon ac yn helpu i greu cymdeithas decach, gynhwysol a chydlynol.

## Beth allaf ei wneud fel cyflogwr i sicrhau cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd ar gyfer fy staff?

Felly, rydych chi'n deall sut gall rhoi cyfleoedd i'ch gweithwyr o ran mynediad, tyfu a chynnydd fod o fudd i'ch busnes chi yn ogystal â'r gweithwyr eu hunain, ond pa gamau allwch chi eu cymryd i wireddu hyn yn eich sefydliad?

Dyma rai camau ymarferol i'w hystyried:

**Manteisio ar gynlluniau cenedlaethol sy'n cefnogi cyfranogiad cynhwysol i waith teg**

Nid yw pawb ar draws cymdeithas yn cael yr un cyfleoedd i gael gwaith teg ac i symud ymlaen yn eu swyddi. Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau yw'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig (y rhain yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol), y rheiny sydd wedi'u heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Fel cyflogwr, mae'n rhaid i chi gael gwared ar y rhwystrau hyn er mwyn ei gwneud yn haws i amrywiaeth eang o bobl o wahanol gefndiroedd wneud cais i weithio gyda chi ac i sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad a chyfle i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Gallai cymhwyso'r model cymdeithasol o anabledd a siarad â gweithwyr ynghylch addasiadau rhesymol yn y gwaith fod o gymorth i gael gwared ar rai o'r rhwystrau hyn o bosib.

Roedd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl – neu'r bwlch cyflogaeth anabledd – yng Nghymru yn 2020/21 yn 32.9 pwynt canran, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 27.9. Er mwyn ceisio lleihau'r bwlch hwn, mae cymhellion ar gael i gyflogwyr yng Nghymru sy'n recriwtio pobl anabl, er enghraifft, taliad o £2,000 i gyflogwyr sy'n cyflogi prentis anabl.

**Creu amgylchedd lle mae cynnydd yn cael ei gefnogi, gan fynd i'r afael â rhwystrau gan gynnwys sgiliau a gweithio hyblyg**

Mae ymchwil yn dangos bod sefydliadau sydd â diwylliannau dysgu cryf 92% yn fwy tebygol o ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd, a'u bod 52% yn fwy cynhyrchiol. Ond nid yw bob amser yn hawdd i weithwyr gael mynediad at gyfleoedd dysgu, yn enwedig os oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu gartref.

Gall gorfod gofalu am ddibynyddion iau neu h?n fod yn rhwystr enfawr rhag symud ymlaen yn y gwaith, yn enwedig i fenywod. Mae cyflogwyr yn awr yn cyflwyno polisïau gofalu sy'n llawer mwy priodol ac wedi'u cyd-gynllunio ar gyfer staff, er mwyn sicrhau nad yw eu cyfrifoldebau teuluol yn eu hatal rhag gallu symud ymlaen yn y gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

**Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i wreiddio sgiliau hanfodol**

Mae llu o bethau y gall cyflogwyr eu gwneud i feithrin perthynas â sefydliadau addysgol lleol er mwyn denu ac ysbrydoli talent i'r dyfodol a dysgu sgiliau hanfodol iddynt cyn iddynt ymuno â byd gwaith.

Mae'r syniadau'n amrywio o fynd i ffeiriau gyrfaoedd a rhoi sgyrsiau gyrfaoedd mewn ysgolion, i gynnal gweithdai cyflogadwyedd sy'n darparu hyfforddiant cyflogadwyedd (prydlondeb, hyder, disgwyliadau yn y gweithle ac ati) a chynnig lleoliadau gwaith, naill ai i fyfyrwyr lleol neu i grwpiau difreintiedig.

**Sicrhau bod dysgu a datblygu perthnasol o ansawdd da ar gael i bob gweithiwr**

Bydd cael cynllun hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer gweithwyr ar bob lefel yn eich helpu i ddiogelu eich cwmni ar gyfer y dyfodol drwy ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i fodloni gofynion busnes nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal â hyfforddiant, cynigiwch adborth rheolaidd, llwybrau hyrwyddo clir wedi'u strwythuro'n dda i'ch staff yn ogystal â chynlluniau mentora, i'w gwneud mor hawdd ac mor ddeniadol â phosibl i weithwyr ar bob lefel o'ch gweithlu ffynnu.

**Mesur effaith eich gweithgareddau hyfforddi a datblygu**

Gwnewch yn si?r eich bod yn cyflwyno prosesau sy'n costio ac yn meincnodi unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu rydych chi'n eu gwneud, ac yn hyrwyddo'r manteision i staff er mwyn annog cyfranogiad.

Yn ôl What Works Wellbeing, amcangyfrifir bod dilyn cwrs rhan-amser ar gyfer gwaith dros 12 mis yn rhoi buddion llesiant sy'n cyfateb i £1,584 o incwm y flwyddyn.

**Cynnal adolygiadau canol gyrfa i alluogi gweithwyr i nodi nodau gyrfa priodol a chyfleoedd datblygu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

Ni ddylai oed fod yn rhwystr mewn gwaith. Er bod ganddynt gyfoeth o brofiad uniongyrchol a sgiliau amhrisiadwy, mae gweithwyr h?n yn aml yn cael eu hanwybyddu ar gyfer dyrchafiad ac nid ydynt yn cael cyfle i wneud y gorau o'u cyfraniad yn y gwaith.

Drwy ymrwymo i adolygiadau canol gyrfa a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i weithwyr wrth iddynt nesáu at ail hanner eu gyrfaoedd, byddwch yn cael y gorau o'ch gweithwyr mwy profiadol drwy eu hannog i barhau i ddatblygu sgiliau newydd a chymryd mwy o gyfrifoldeb.

**Sicrhau bod pob gweithiwr yn cael mynediad at hyfforddiant mewn cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, ac yn cael hyfforddiant o'r fath**

Drwy wneud yn si?r bod eich holl staff wedi'u hyfforddi mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth, byddwch yn creu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol. Mae achos busnes clir dros hyn gan fod cael lleisiau mwy amrywiol o gwmpas byrddau gwneud penderfyniadau yn caniatáu i benderfyniadau gwell gael eu gwneud sy'n cefnogi bywydau mwy o bobl.

# Pecyn cymorth - Cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd

Rydym wedi paratoi'r pecynnau adnoddau defnyddiol hyn – un ar gyfer pob egwyddor Gwaith Teg – i'ch helpu ar y llwybr tuag at ddod yn gyflogwr Gwaith Teg.

Os ydych chi'n awyddus i roi amrywiaeth o gyfleoedd i'ch gweithwyr gael mynediad at waith, i dyfu a datblygu, gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Mae cyfoeth o offer ac adnoddau ar-lein i'ch helpu i roi'r egwyddor hon ar waith ar draws eich sefydliad ond mae gwybod sut i lywio drwy'r holl wybodaeth yn gallu bod yn her, felly rydyn ni wedi casglu rhai o'r rhai mwyaf defnyddiol yma:

## Datblygu Sgiliau yn y Gweithle yn y DU | Taflenni Ffeithiau | CIPD

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

Er mwyn sicrhau talent gynaliadwy ac effeithiol a chynllunio olyniaeth, mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn deall eu hanghenion busnes nawr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid iddynt hefyd fod yn ymwybodol o'r cyd-destun sgiliau ehangach a'r amgylchedd polisi yng Nghymru a ledled y DU.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn edrych ar **natur a nodau allweddol polisi sgiliau'r DU** . Mae'n edrych ar y sefyllfa sgiliau yn y DU, gan ymdrin â chynhyrchiant isel, yn ogystal â chyngor gyrfaoedd, y farchnad lafur i raddedigion, ac anghydnawsedd sgiliau.

## Recriwtio prentis: canllawiau i gyflogwyr | LLYW.CYMRU

Gall cyflogi prentis eich helpu i ehangu eich gweithlu a'i sylfaen sgiliau. Mae'r adnodd ar-lein hwn yn **amlinellu'r manteision a'r broses ar gyfer recriwtio prentis** ac yn egluro sut gall cyflogwyr gael gafael ar gymorth Llywodraeth Cymru tuag at gost hyfforddiant ac asesiadau.

## Dysgu yn Llif y Gwaith | Taflenni Ffeithiau | CIPD

Mae'r daflen ffeithiau hon yn edrych ar beth mae 'helpu pobl i ddysgu' yn ei olygu mewn cyd-destun gweithle. Mae'n canolbwyntio ar **bwysigrwydd economaidd sgiliau yn y gweithle** ac yn rhestru ffyrdd pendant i gyflogwyr allu mesur sgiliau a galluoedd eu gweithlu.

Mae hefyd yn cyfeirio at ddamcaniaethau sy'n esblygu ynghylch cefnogi dysgu, gan edrych ar symud oddi wrth hyfforddiant i ddysgu. Bydd yn eich helpu i ystyried y materion strategol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â helpu pobl i ddysgu, gan edrych hefyd ar y graddau y mae cynlluniau dysgu yn fwyaf effeithiol.

## Model Cymdeithasol a Anabledd | Llwyodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn gwahaniaethu rhwng 'amhariad' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl sy'n byw gydag amhariadau yn wynebu rhwystrau sy'n eu gwneud yn anabl yn y gymdeithas neu yn y gweithle. Dysgwch fwy neu cofrestrwch ar **gyfer yr hyfforddiant yma**.

## Dysgu a Datblygu Sut i Brisio a Meincnodi | Taflenni Ffeithiau | CIPD

Mae'n anochel y bydd dysgu a datblygu yn arwain at gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol i gyflogwyr, ac er bod y buddion anniriaethol yn glir, gall fod yn anodd mesur elw gwirioneddol ar y buddsoddiad hwn.

Mae'r **daflen ffeithiau hon yn rhoi arweiniad ar sut i gostio gweithgareddau dysgu a datblygu**, gan roi gwybodaeth am sut i feincnodi'r gweithgareddau hyn a rhoi cipolwg ar gryfderau a gwendidau meincnodi.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/cyfleoedd-ar-gyfer-mynediad-twf-a-chynnydd-pecynnau-adnoddau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**